# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 17 Chwefror 2022 am 18.30**
*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Gabrielle Wyn
Y Cynghorydd David H Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Angharad Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Huw Jones. **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Richard Fraser-Williams, Lowri Jones a Mary Hayes.

2. **Cofnodion**
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig** – Iwan ap Trefor wedi ei benodi fel Rheolwr Traffig a Phrosiectau. Wedi cael ymateb ganddo ac am ei ffonio wythnos nesaf i drafod yr holl faterion yn yr ardal.

**3.2 Llecyn Tir, Bont Tŵr** – Y Clerc wedi ymateb i gynnig Breedon, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi eto, dal ddim ymateb.

**3.3 Mynediad i Lôn Las Ogwen ger Garej Pandy** – Gwaith wedi ei gomisiynu i edrych ar wella'r arwyddion a'r marciau ffordd i'r fynedfa. Ar y gweill.

**3.4 Llwybr Rhif 3** – Y Clerc wedi holi'r swyddog llwybrau newydd, Rob Jones – disgwyl diweddariad ar y mater. Y Clerc i holi eto.

**3.5 Arhosfan bws ger Pant yr Ardd** –cais am linellau melyn eraill yr ochr arall ac wedi holi pam nad ydynt yn defnyddio cwmni lleol i gwblhau'r gwaith. Y Clerc i holi eto. Angen trafod gyda'r Rheolwr Traffig.

**3.6 Beiciau Modur yn tresmasu ar Gwaun Gynfi** – Nodwyd bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith ar Gwaun Gynfi y flwyddyn nesaf, ac yn gobeithio y gallai'r giatiau newydd fod yn rhan o'r gwaith hwn. Arwydd wedi ei osod ar y giât.

**3.7 Drychau traffig -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto.

**3.8 Carreg filltir hanesyddol** - Y Clerc wedi cadw'r darn yn swyddfa Partneriaeth Ogwen ac wedi danfon ebost at Nest Thomas yn yr adran amgueddfeydd. Wedi cael caniatâd yr Adran Priffyrdd i'w chadw, felly mae angen trefnu ei danfon at Nest ym Mangor.

**3.9 Lôn y Wern, Tregarth** – Adroddodd y Cyng. Dafydd Roberts fod rhywfaint o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, ond fod angen sylw brys i weddill y ffordd, yn enwedig rhwng Cororion a Tai Teilwriaid. Y Clerc i holi eto.

**3.10 Fferm Dinas** – y Clerc wedi holi'r adran Gynllunio am y fynedfa newydd – dim ymateb hyd yn hyn. Angen holi eto.

**3.12 Cysgodfannau Bws** –Adroddwyd fod Swyddog Eiddo Partneriaeth Ogwen wedi glanhau a paentio'r cysgodfannau bws. Lloches bws metel Bro Syr Ifor wedi ei drwsio hefyd.

**3.13 Diffyg ymateb Cyngor Gwynedd –** Y Clerc wedi danfon llythyr at Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i ofyn am gyfarfod i drafod y materion a'n pryderon, gan gynnwys y Cyngor Cymunedau eraill. Angen casglu tystiolaeth ac anfon ymlaen at Gyngor Gwynedd a gofyn wrth y Cynghorau Cymuned eraill hefyd.

**3.14 Llythyr at Bwrdd Adra –** Pawb yn hapus gyda'r llythyr sydd wedi ei ddrafftio. Angen ei anfon at Brifweithredwr Adra.

**3.15 Braich Talog –** Adroddodd y Cyng. Gabrielle Wyn fod twll mawr wedi ymddangos ar ffordd Braich Talog, y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Adroddwyd bod y ffordd wedi ei drwsio.

**3.16 Biniau halen** - Aelodau i gadw llygaid ar y biniau halen ac i ddanfon rhestr o'r rhai sydd angen eu llenwi at y Clerc.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2022'

**Cyflwynwyd**: Prifysgol Bangor, iSupport Dementia – rhannu'r wybodaeth

**Cyflwynwyd:** Swyddog Polisi Un Llais Cymru – fideos codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo Cynghorwyr Cymuned a Thref. Angen tynnu sylw at y fideos a'u rhannu.

**Cyflwynwyd**: Dŵr Cymru – dogfen cyn-ymgynghori ar gyfer Cynllun Rheoli Adnoddau dŵr (drafft) 2024. Yr aelodau i ymateb fel unigolion.

**Cyflwynwyd:** Ymgynhoriaeth Gwynedd – astudiaeth parcio A5 Llyn Ogwen – cytuno gyda'r cynigion, ond hefyd angen meddwl am y bobl leol. Mae'r cynigion ar y funud yn canolbwyntio ar ymwelwyr o bell yn hytrach na ymwelwyr lleol.

**Cyflwynwyd:** GwyrddNi- gwahoddiad i ymuno â'r Cynulliad. Pawb i ymateb fel unigolion.

**5. Gwaith y Mis**

Dim wedi ei godi.

**6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth –** adroddwyd bod yr Ysgol Feithrin wedi cael tair ffenestr, drws a giât newydd.

**Ysgol Llandygai a Neuadd Talgai** – popeth yn rhedeg fel y disgwylir.

**7. Prydles Canolfan Tregarth**

Trafodwyd y brydles newydd sydd wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Mae angen gwirio'r adroddiad asbestos, yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, y cymal am is-osod yr adeilad

ac hefyd y cymal olaf, sydd yn rhy 'agored'. Hefyd mae angen newid ffin y safle i gynnwys yr adeilad yn unig.

**8. Lwfans blynyddol**
Pawb wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ionawr. Derbyniwyd yr adroddiad.

**10. Rhoddion blynyddol**
Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. *(Datgan diddordeb pan fo angen)*

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £350.00 |
| Ambiwlans Awyr | £200.00 |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £250.00 |
| Cylch Meithrin Mynydd Llandegai | £200.00 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100.00 |
| Brownies Nant Ffrancon | £75.00 |

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Defib Store Ltd | Cabinet i'r Neuadd Goffa | £519.84 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb Rhoddion Blynyddol | £20.70 |
| Partneriaeth Ogwen | Dyffryn Ogwen di-blastig | £50.00 |
| J Johnson | Clirio llwybrau Llandygai | £126.00 |

**12. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C15/0966/16/MG** | Tir ger Pentwmpath, Llandygai<br>Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ fforddiadwy<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

*Angen cadw mewn meddwl penderfyniad Bryn Gwalchmai – a gafodd ei wrthod oherwydd cynyddiad mewn traffig.*

**NP3/16/L3F**

Tai Newyddion, Nant Ffrancon
Trosi, newid defnydd, dymchwel penty ac estyniad o storfa i greu anecs i ymwelwyr
**Penderfyniad**: Apêl.

**C21/1156/16/DT**

4 Tan y Bryn, Llandygai
Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i ochr yr eiddo
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd.

**C21/1157/16/DT**

Fron Craig y Pandy, Tregarth
Cais ar gyfer dymchwel estyniad tŷ gwydr ar gefn eiddo a chodi estyniad un llawr yn ei le
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C21/1137/16/CT**

Y Wern, 2 Pentre Llandygai
Cais ar gyfer gwneud gwaith i goeden oddi fewn Ardal Gadwraeth
**Penderfyniad:** Caniatawyd, heb amodau.

**13. Ceisiadau Cynllunio**
**C22/0034/16/DT**

Bryngeraint, Santes Ann
Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i gefn ac ochr yr eiddo ynghyd a chodi estyniad un llawr blaen i greu lolfa haul
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**14. Unrhyw fater brys arall**
Dim i'w drafod.